CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 21 Hydref 2021 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 15 Hydref 2021.

Yn bresennol: Y Cynghorydd Sir McKerlich (Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ahmed, Asghar Ali, Dilwar Ali, Berman, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke, Carter, Cowan, Cunnah, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ford, Gibson, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Hinchey, Hopkins, Howells, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Jones-Pritchard, K Jones, Owen Jones, Joyce, Kelloway, Lancaster, Lay, Lent, Lister, Mackie, McEvoy, McGarry, Melbourne, Merry, Michael, Morgan, Naughton, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Keith Parry, Patel, Phillips, Dianne Rees, Mia Rees, Robson, Sandrey, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Huw Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood

72 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Gavin Hill-John, Phillipa Hill-John, Graham Thomas a Molik. Roedd y Cynghorwyr McEvoy a Howells wedi dweud y bydden nhw'n hwyr yn dod i'r cyfarfod.

73 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau:

| CYNGHORYDD | RHIF EITEM: | NATUR Y BUDDIANT |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Naughton | Eitem 8 | Buddiant Personol - Aelod o'r Teulu yn derbyn pensiwn gan Bws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Bowen-Thomas | Eitem 12 | Buddiant Personol – Prif Swyddog Gweithredol, Cymru Ddiogelach, Caerdydd |

74 : COFNODION

Cafodd cofnodion y cyfarfod ar 30 Medi eu cymeradwyo a'u llofnodi fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

75 : CWESTIYNAU CYHOEDDUS

Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw gwestiynau cyhoeddus ar gyfer y cyfarfod hwn.

76 : DEISEBAU

Cyflwynodd y Cynghorydd Driscoll ddeiseb ar ran y Cynghorydd McKerlich. Roedd y ddeiseb yn cynnwys 338 o lofnodion dilys yn gofyn i'r Cyngor adolygu gosodiad cyffordd Llantrisant Road/Radur.

77 : CYHOEDDIADAU'R ARGLWYDD FAER

Rhoddodd yr Arglwydd Faer y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am ddigwyddiadau yr oedd wedi'u mynychu'n ddiweddar, gan gynnwys:

- Prif Westai wrth ddathlu pen-blwydd geni Mahatma Gandhi yng Nghyngor Hindwiaid Cymru;
- Ailgysegru HMS Cambria'n swyddogol;
- Agor Ystafelloedd Staybridge, ymestyn yr Holiday Inn Express, Bae Caerdydd lle roedd wedi cyflwyno araith;
- Agor y Coleg Paratoi Milwrol newydd yng Nghaerdydd, mae'r coleg wedi helpu dros 4,900 o bobl ifanc i symud ymlaen i yrfaoedd yn y Lluoedd Arfog; a
- Chroesawu Ei Mawrhydi, y Frenhines i Gaerdydd yn yr Orsaf Ganolog

Mae rhoddion i Elusen yr Arglwydd Faer wedi'u gwneud yn ddiweddar gan Mosg Rabbaniah yn Grangetown a Gwesty'r Staybridge Suites.

Yn olaf, diolchodd yr Arglwydd Faer i'r Athro James Downe am ei gyfraniad i'r Cyngor ar ôl dod yn Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau a Moeseg ym mis Tachwedd 2013, ac yn ddiweddarach ar ddod yn Is-gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor hwnnw.

78 : ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL PUMED CYNLLUN DATBLYGU LLEOL CAERDYDD

Y rheswm dros yr adroddiad oedd amlinellu diben proses Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a cheisio cymeradwyaeth pumed AMB CDLl Caerdydd i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2021.

PENDERFYNWYD:

Argymhellwyd y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r pumed AMB i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2021.

79 : ADRODDIADAU CYDYMFFURFIAETH 2020/21 - DATGANIAD CYFRIFON, DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL AC ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS.

Cyflwynwyd y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2020/21 er mwyn bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd). Mae hyn yn darparu bod y Datganiad Cyfrifon yn cael ei gymeradwyo gan bwyllgor perthnasol neu gan gyfarfod y Cyngor fel corff corfforaethol. Oherwydd Covid-19, mae

amserlenni cenedlaethol o ran llofnodi cyfrifon yn parhau i gael eu hymestyn o 31 Mai i 31 Awst a'r rhai i'w cyhoeddi, a'u hymestyn o 31 Gorffennaf i 30 Tachwedd. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) y mae'n ofynnol iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor.

PENDERFYNWYD:

CYTUNODD y Cyngor i'r canlynol:

1. Cymeradwyo Datganiad Cyfrifon Archwiliedig 2020/21 – Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn ogystal ag Awdurdod Harbwr Caerdydd (Atodiad 1).

2. Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2020/21 (Atodiad 2);.

3. Nodi Adroddiadau Archwilio Cyfrifon (ACI 260) gan Archwilio Cymru ar Ddatganiad Cyfrifon Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, Awdurdod Harbwr Caerdydd a Chronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg, am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 (Atodiadau 4 a 5).

4. Cymeradwyo Datganiad Blynyddol Awdurdod Iechyd Porthladd Caerdydd 2020/21 (Atodiad 6)

5. Nodi'r Llythyrau Cynrychiolaeth terfynol ar gyfer Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd ac Awdurdod Harbwr Caerdydd sydd wedi'u cynnwys yn Atodiadau 4 a 5.

6. I nodi y caiff y dogfennau canlynol eu llofnodi'n ffurfiol ar ddiwedd y cyfarfod:

    - Datganiad Cyfrifon ar gyfer Cyngor Caerdydd - yr Arglwydd Faer a Chyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau.
    - Datganiad Cyfrifon ar gyfer Awdurdod Harbwr Caerdydd - Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau
    - Alldro Blynyddol Awdurdod Iechyd Porthladd Caerdydd - yr Arglwydd Faer a Chyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau.
    - Datganiad Llywodraethiant Blynyddol - Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr.
    - Tystysgrif Archwilio ar gyfer Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd ac Awdurdod Harbwr Caerdydd - Archwilydd Penodedig, Archwilio Cymru.
    - Llythyr Cynrychiolaeth ar gyfer Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd - Yr Arglwydd Faer a'r Prif Weithredwr.
    - Llythyr Cynrychiolaeth ar gyfer Awdurdod Harbwr Caerdydd – Yr Arglwydd Faer a'r Prif Weithredwr.

7. Nodi Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2020/21 (Atodiad 7).

Derbyniodd y Cyngor yr adroddiad a oedd yn cwmpasu blwyddyn ar gyfer y Pwyllgor Safonau a Moeseg. Amlinellwyd hyn gan y Cadeirydd yr Athro James Downe a oedd yn dod oddi ar ei ddyletswydd fel Cadeirydd ym mis Hydref 2021.

81 : CODAU CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Diben yr adroddiad oedd galluogi'r Cyngor i ystyried codau cyfryngau cymdeithasol drafft ar gyfer (i) Aelodau Etholedig a (ii) Sefydliadau partner, a ddatblygwyd yn unol â'r Cynnig a gynhaliwyd yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth 2021 ('y Codau Cyfryngau Cymdeithasol').

PENDERFYNWYD:

CYTUNODD y Cyngor i'r canlynol:

1. Cymeradwyo a mabwysiadu: (i) Cod Egwyddorion drafft yr Aelodau ar Ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol (**Atodiad A**); a (ii) Cod Ymarfer drafft y Sefydliadau Partner ar Gyfryngau Cymdeithasol (**Atodiad B**);

2. Cytuno y dylid diwygio Cod Ymddygiad yr Aelodau fel y dangosir yn **Atodiad C**, i ymgorffori Cod Egwyddorion yr Aelodau cymeradwy ar Ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol (**Atodiad A**); bod y Swyddog Monitro yn cael ei awdurdodi i gyhoeddi'r hysbysiad cyhoeddus gofynnol ac anfon hysbysiad at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; a diweddarwyd y Cyfansoddiad yn unol â hynny; a

3. Chytuno y dylid cyhoeddi Cod Ymarfer y Sefydliadau Partner ar Gyfryngau Cymdeithasol (**Atodiad B)** ar wefan y Cyngor.

82 : DATGANIADAU AELODAU'R CABINET

Datganiad yr Arweinydd – Y Cynghorydd Huw Thomas
Ymatebodd yr Arweinydd i gwestiynau a ofynnwyd ar y canlynol:

- Porth y Gorllewin

Yr Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd - Y Cynghorydd Hinchey
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Lansiad Cenedlaethol Maethu Cymru

Aelod Cabinet, Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles – Y Cynghorydd Elsmore, Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau mewn yn ymwneud â:

- Chynllun Adsefydlu Dinasyddion Afghanistan
- Canolfannau Dydd a Hybiau Cymunedol Pobl Hŷn

Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau - Y Cynghorydd Merry.
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Diweddariad COVID-19 i Ysgolion
- Canopi Gwyrdd y Frenhines
- Meysydd Chwarae Bwytadwy

Yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth - Y Cynghorydd Wild
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Rhaglen Ysgolion Teithio Llesol
- Ymgynghoriad ar y Strategaeth Fysus
- Clwb Ceir Newydd
- Goleuadau Stryd LED

Yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu - Y Cynghorydd Goodway
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Strategaeth Eiddo a Chynllun Eiddo Blynyddol
- Adferiad Canol y Ddinas:

Yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden - Y Cynghorydd Bradbury
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Gwobr y Faner Werdd
- Cyfleuster BMX Newydd
- Ymgynghoriad ar Barc Sglefrfyrddio

Yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad - Y Cynghorydd Weaver
Nid oedd unrhyw gwestiynau i'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad

Yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau - Y Cynghorydd Thorne.
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Gwobrau Tai Cymru 2021
- Hybiau a Llyfrgelloedd

Yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd - Y Cynghorydd Michael
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Amlosgfa Draenen Pen-y-graig
- Gwobrau PawPrints RSPCA 2021
- Casgliadau Gwastraff Gardd

83 : HYSBYSIAD O GYNNIG 1

Nododd yr Arglwydd Faer fod Hysbysiad o Gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Carter ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Wood wedi dod i law i'w ystyried. Derbyniwyd un Diwygiad oddi wrth Grŵp y Ceidwadwyr.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Carter i gynnig ei ddiwygiad fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn yn nodi'r canlynol:

- Ers 2017, mae Caerdydd wedi gweld cyfraddau cynyddol o ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau trefn gyhoeddus, a rhai sy'n gysylltiedig â chyllyll a chyffuriau.
- Mewn arolwg yn ddiweddar o drigolion ar draws 15 o ddinasoedd mawr y DU, Caerdydd oedd y lle lleiaf diogel i fyw ynddo
- Dywedodd 38% o bobl nad oedden nhw'n teimlo'n ddiogel o gwbl ar y strydoedd yn y nos, tra bod 31% arall yn poeni am eu diogelwch yn ystod y dydd.
- Roedd 26% o oedolion yn y pôl wedi bod yn dyst trosedd
- Yn 2020, y troseddau mwyaf cyffredin oedd ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac yna trais ac ymosodiadau rhywiol.
- Mae ymyriadau i leihau troseddu, neu ofn troseddau, yn gysylltiedig â gwell iechyd a lles mewn cymunedau.

Mae'r Cyngor yn galw ar y Cabinet i:

- Gynyddu nifer y swyddogion ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gweithio i'r cyngor a gwella cysylltiadau â'r heddlu
- Comisiynu adolygiad o ddarpariaeth ieuenctid i gynnwys plant a phobl ifanc yn yr hyn sydd ei angen arnynt. Cydnabyddir bod clybiau ieuenctid yn ddull pwysig o atal pobl ifanc sy'n agored i niwed rhag ymuno â gangiau a chymryd rhan mewn troseddu
- Cynyddu'r cymorth sydd ar gael i sefydliadau cymunedol a chlybiau chwaraeon i ehangu gwasanaethau mewn ardaloedd gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol uchel

· Defnyddio cynllunio a dylunio'n well i fel rhwystr ymwthiol i droseddau drwy oleuo a lleihau lleoliadau peryglus. Dylai pob prosiect gofod cyhoeddus gynnwys datganiad ar sut y disgwylir i'r dyluniad effeithio ar weithgarwch troseddol

· Ehangu rhwydwaith teledu cylch cyfyng ARC i wardiau allanol Caerdydd i fynd i'r afael â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

· Gweithio gyda chwmnïau bysus i ailsefydlu bysus nos i leihau'r risg y bydd pobl yn dioddef trosedd ar eu ffordd adref.

· Ehangu'r rhwydwaith gwarchod cymdogaethau, cefnogi datblygiad grwpiau newydd a recriwtio gwirfoddolwyr.

· Datblygu cofrestr masnachwyr dibynadwy o bobl fasnach gymwysedig sy'n gweithio yn y ddinas i osgoi masnachwyr twyllodrus sy'n elwa o drigolion sy'n agored i niwed.

· Diogelu cyllid ar gyfer gwasanaethau arbenigol i ddioddefwyr trais er mwyn ateb yn ddigonol i'r galw a ragwelir yn ystod ac ar ôl y pandemig.

· Gweithio gyda Heddlu De Cymru i gomisiynu adolygiad o droseddu a diogelwch cymunedol a dysgu o ddinasoedd eraill.

· Gweithio gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru i hyrwyddo polisi lleihau niwed, gan gynnwys creu ystafelloedd defnyddio cyffuriau cyfreithiol i gymryd cyffuriau peryglus oddi ar ein strydoedd.

Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Elsmore

Diwygiad Un - Ceidwadwyr

Galwodd yr Arglwydd Faer ar y Cynghorydd Mia Rees i gynnig y diwygiad cyntaf fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn yn nodi'r canlynol:

· Ers 2017, mae Caerdydd wedi gweld cyfraddau cynyddol o ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau trefn gyhoeddus, a rhai sy'n gysylltiedig â chyllyll a chyffuriau.

· Mewn arolwg yn ddiweddar o drigolion ar draws 15 o ddinasoedd mawr y DU, Caerdydd oedd y lle lleiaf diogel i fyw ynddo

· Dywedodd 38% o bobl nad oedden nhw'n teimlo'n ddiogel o gwbl ar y strydoedd yn y nos, tra bod 31% arall yn poeni am eu diogelwch yn ystod y dydd.

· Roedd 26% o oedolion yn y pôl wedi bod yn dyst i drosedd **(MEWNOSOD: a 29% wedi dioddef trosedd)**

· Yn 2020, y troseddau mwyaf cyffredin oedd ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac yna trais ac ymosodiadau rhywiol.

· Mae ymyriadau i leihau troseddu, neu ofn troseddau, yn gysylltiedig â gwell iechyd a lles mewn cymunedau.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i:

· Gynyddu nifer y swyddogion ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gweithio i'r cyngor a gwella cysylltiadau â'r heddlu

· Comisiynu adolygiad o ddarpariaeth ieuenctid i gynnwys plant a phobl ifanc yn yr hyn sydd ei angen arnynt. Cydnabyddir bod clybiau ieuenctid yn ddull pwysig o atal pobl ifanc sy'n agored i niwed rhag ymuno â gangiau a chymryd rhan mewn troseddu

**Dileu:**

**'· Cynyddu'r cymorth sydd ar gael i sefydliadau cymunedol a chlybiau chwaraeon i ehangu gwasanaethau mewn ardaloedd gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol uchel'**

**· Defnyddio cynllunio a dylunio'n well i fel rhwystr ymwthiol i droseddau drwy oleuo a lleihau lleoliadau peryglus. Dylai pob prosiect gofod cyhoeddus gynnwys datganiad ar sut y disgwylir i'r dyluniad effeithio ar weithgarwch troseddol'**

**Mewnosod:**
***· Sicrhau bod darpariaeth ieuenctid yn cyrraedd pob cwr o'n dinas, gan roi'r cyfle i bob person ifanc gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt drwy gynyddu'r cymorth sydd ar gael i sefydliadau cymunedol a chlybiau chwaraeon mewn ardaloedd o ymddygiad gwrthgymdeithasol uchel.***

***·Y Cyngor i ystyried yn yr adolygiad parhaus o'r CDLl y defnydd o gynllunio a dylunio i adeiladu rhwystr ymwthiol rhag troseddau drwy oleuadau a lleihau lleoliadau peryglus.***

· Ehangu rhwydwaith teledu cylch cyfyng ARC a goleuadau llwybrau troed i wardiau allanol Caerdydd i fynd i'r afael â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

· Gweithio gyda chwmnïau bysus i ailsefydlu bysus nos i leihau'r risg y bydd pobl yn dioddef trosedd ar eu ffordd adref.

· Ehangu'r rhwydwaith gwarchod cymdogaethau, cefnogi datblygiad grwpiau newydd a recriwtio gwirfoddolwyr.

***Dileu:***

**· Datblygu cofrestr masnachwyr dibynadwy o bobl fasnach gymwysedig sy'n gweithio yn y ddinas i osgoi masnachwyr twyllodrus sy'n elwa o drigolion sy'n agored i niwed.'**

· Diogelu cyllid ar gyfer gwasanaethau arbenigol i ddioddefwyr trais er mwyn ateb yn ddigonol i'r galw a ragwelir yn ystod ac ar ôl y pandemig.

· Gweithio gyda Heddlu De Cymru i gomisiynu adolygiad o droseddu a diogelwch cymunedol a dysgu arfer gorau o ddinasoedd eraill.

**Mewnosod**
**· *Gofyn yn ffurfiol i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ddatblygu strategaeth atal trais gadarn ac adrodd ar ei chynnydd i Bwyllgor Trosedd ac Anhrefn y Cyngor o fewn 6 mis***

***Dileu:***
**Gweithio gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru i hyrwyddo polisi lleihau niwed, gan gynnwys creu ystafelloedd defnyddio cyffuriau cyfreithiol i gymryd cyffuriau peryglus oddi ar ein strydoedd.**

**Mewnosod**
**· *Cyflwyno adroddiad ar yr eitemau hyn o fewn tri mis.***

Bydd y cynnig diwygiedig fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn yn nodi'r canlynol:

· Ers 2017, mae Caerdydd wedi gweld cyfraddau cynyddol o ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau trefn gyhoeddus, a rhai sy'n gysylltiedig â chyllyll a chyffuriau.

· Mewn arolwg yn ddiweddar o drigolion ar draws 15 o ddinasoedd mawr y DU, Caerdydd oedd y lle lleiaf diogel i fyw ynddo

· Dywedodd 38% o bobl nad oedden nhw'n teimlo'n ddiogel o gwbl ar y strydoedd yn y nos, tra bod 31% arall yn poeni am eu diogelwch yn ystod y dydd.

· Roedd 26% o oedolion yn y pôl wedi bod yn dyst i drosedd ac roedd 29% wedi dioddef trosedd

· Yn 2020, y troseddau mwyaf cyffredin oedd ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac yna trais ac ymosodiadau rhywiol.

· Mae ymyriadau i leihau troseddu, neu ofn troseddau, yn gysylltiedig â gwell iechyd a lles mewn cymunedau.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i:

· Gynyddu nifer y swyddogion ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gweithio i'r cyngor a gwella cysylltiadau â'r heddlu

· Comisiynu adolygiad o ddarpariaeth ieuenctid i gynnwys plant a phobl ifanc yn yr hyn sydd ei angen arnynt. Cydnabyddir bod clybiau ieuenctid yn ddull pwysig o atal pobl ifanc sy'n agored i niwed rhag ymuno â gangiau a chymryd rhan mewn troseddu

· Sicrhau bod darpariaeth ieuenctid yn cyrraedd pob cwr o'n dinas, gan roi'r cyfle i bob person ifanc gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt drwy gynyddu'r cymorth sydd ar gael i sefydliadau cymunedol a chlybiau chwaraeon mewn ardaloedd o ymddygiad gwrthgymdeithasol uchel.

·Y Cyngor i ystyried yn yr adolygiad parhaus o'r CDLl y defnydd o gynllunio a dylunio i adeiladu rhwystr ymwthiol rhag troseddau drwy oleuadau a lleihau lleoliadau peryglus.

· Ehangu rhwydwaith teledu cylch cyfyng ARC a goleuadau llwybrau troed i wardiau allanol Caerdydd i fynd i'r afael â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

· Gweithio gyda chwmnïau bysus i ailsefydlu bysus nos i leihau'r risg y bydd pobl yn dioddef trosedd ar eu ffordd adref.

· Ehangu'r rhwydwaith gwarchod cymdogaethau, cefnogi datblygiad grwpiau newydd a recriwtio gwirfoddolwyr.

· Diogelu cyllid ar gyfer gwasanaethau arbenigol i ddioddefwyr trais er mwyn ateb yn ddigonol i'r galw a ragwelir yn ystod ac ar ôl y pandemig.

· Gweithio gyda Heddlu De Cymru i gomisiynu adolygiad o droseddu a diogelwch cymunedol a dysgu arfer gorau o ddinasoedd eraill.

· Gofyn yn ffurfiol i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ddatblygu strategaeth atal trais gadarn ac adrodd ar ei chynnydd i Bwyllgor Trosedd ac Anhrefn y Cyngor o fewn 6 mis

· Cyflwyno adroddiad ar yr eitemau hyn o fewn tri mis.

Eiliwyd y diwygiad yn ffurfiol gan y Cynghorydd Parkhill.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y cynnig a'r diwygiad.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Carter i ymateb i'r materion a godwyd yn ystod y drafodaeth.

Ymatebodd y Cynghorydd Carter i'r materion a godwyd a chadarnhaodd fod y diwygiad wedi'i dderbyn.

Galwodd yr Arglwydd Faer am Bleidlais ar y Cynnig Terfynol fel y'i diwygiwyd.

COLLWYD y bleidlais ar y Cynnig Terfynol.

84 : HYSBYSIAD O GYNNIG 2

Nododd yr Arglwydd Faer fod Hysbysiad o Gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Robson ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Hudson wedi dod i law i'w ystyried. Derbyniwyd dau ddiwygiad gan y Grŵp Llafur a Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Robson i gynnig ei ddiwygiad fel a ganlyn:

Noda'r Cyngor hwn y canlynol:

1. Mae parciau a mannau agored Caerdydd yn nodwedd bwysig o'r ddinas sy'n adnodd gwerthfawr ac yn lle diogel i drigolion ac ymwelwyr.
2. Mae parciau'n fannau lle dylai unigolion a theuluoedd deimlo'n ddiogel ac yn ystod pandemig y Coronafeirws, roedd llawer o drigolion yn mwynhau ac yn gwerthfawrogi eu parc lleol i allu mynd allan.
3. Mae nifer o grwpiau gwirfoddol, gan gynnwys grwpiau "Cyfeillion", sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr ac yn helpu i wella ein parciau. Mae'r Cyngor hwn yn diolch iddynt am eu gwaith caled.
4. Mae gwaith ceidwaid parciau yn hanfodol er mwyn galluogi gwaith a wneir gan grwpiau Cyfeillion a sicrhau bod parciau Caerdydd yn ddiogel ac yn cael eu rheoli'n dda.

Mae'r Cyngor hwn hefyd yn nodi y bu nifer fawr o ddigwyddiadau mewn parciau dros y misoedd diwethaf yn anffodus, yn amrywio o droseddau difrifol i ymddygiad gwrthgymdeithasol lefel isel.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i gyflwyno adroddiad sy'n cynnwys:

- Cynyddu'r cyllid sydd ar gael i geidwaid parciau. Bydd mwy o geidwaid yn helpu i wneud ein parciau'n fwy diogel ac annog grwpiau Cyfeillion i ddatblygu.
- Polisi ar ble a phryd y mae'n briodol cyflwyno goleuadau mewn parciau, a pha ymgynghori fyddai'n cael ei gynnal i nodi unrhyw lwybrau y mae angen eu goleuo.
- Ystyried a ddylai'r Cyngor, ar ôl gofyn am gyngor gan yr Heddlu, gynnig gwobr am wybodaeth sy'n arwain at arestiadau pan fydd fandaliaeth ddifrifol yn digwydd mewn parciau.

Dylid cyflwyno adroddiad o'r fath i'r Cabinet o fewn pedwar mis.

Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Hudson.

Diwygiad Un – Grŵp Llafur

Galwodd yr Arglwydd Faer ar y Cynghorydd Bradbury i gynnig y diwygiad cyntaf fel a ganlyn:

Noda'r Cyngor hwn y canlynol:

1. Mae parciau a mannau agored Caerdydd yn nodwedd bwysig o'r ddinas sy'n adnodd gwerthfawr ac yn lle diogel i drigolion ac ymwelwyr.

2. Mae parciau'n fannau lle dylai unigolion a theuluoedd deimlo'n ddiogel ac yn ystod pandemig y Coronafeirws, roedd llawer o drigolion yn mwynhau ac yn gwerthfawrogi eu parc lleol i allu mynd allan.
3. Mae nifer o grwpiau gwirfoddol, gan gynnwys grwpiau "Cyfeillion", sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr ac yn helpu i wella ein parciau. Mae'r Cyngor hwn yn diolch iddynt am eu gwaith caled.
4. Mae gwaith ceidwaid parciau yn hanfodol er mwyn galluogi gwaith a wneir gan grwpiau Cyfeillion a sicrhau bod parciau Caerdydd yn ddiogel ac yn cael eu rheoli'n dda.

**Mewnosod**

5. ***Mae gweithio gyda'r heddlu yn hanfodol i gadw'r Parciau'n ddiogel ac yn cael ei reoli'n dda, ac mae'n nodi bod 21,000 o Heddweision yn y DU wedi'u diswyddo ers 2010.***

Mae'r Cyngor hwn hefyd yn nodi y bu nifer fawr o ddigwyddiadau mewn parciau dros y misoedd diwethaf yn anffodus, yn amrywio o droseddau difrifol i ymddygiad gwrthgymdeithasol lefel isel.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i gyflwyno adroddiad sy'n cynnwys:

**Dileu:**

- **Cynyddu'r cyllid sydd ar gael i geidwaid parciau. Bydd mwy o geidwaid yn helpu i wneud ein parciau'n fwy diogel ac annog grwpiau Cyfeillion i ddatblygu.**

***Mewnosod:***

- ***Parhau i edrych ar ffyrdd yn ystod proses y gyllideb i gynyddu'r arian ar gyfer staff cymorth a diogelwch parciau a Grwpiau Cyfeillion wrth symud ymlaen.***

- Polisi ar ble a phryd y mae'n briodol *parhau i* gyflwyno goleuadau mewn parciau, a pha ymgynghori fyddai'n cael ei gynnal i nodi unrhyw lwybrau y mae angen eu goleuo.

- Ystyried a ddylai'r Cyngor, ar ôl gofyn am gyngor gan yr Heddlu, gynnig gwobr *lle bo'n briodol* am wybodaeth sy'n arwain at arestiadau pan fydd fandaliaeth ddifrifol yn digwydd mewn parciau.

**Mewnosod:**
***Dylid cyflwyno adroddiad o'r fath i'r Cabinet o fewn pedwar mis.***

Byddai'r cynnig diwygiedig fel a ganlyn:

Noda'r Cyngor hwn y canlynol:

1. Mae parciau a mannau agored Caerdydd yn nodwedd bwysig o'r ddinas sy'n adnodd gwerthfawr ac yn lle diogel i drigolion ac ymwelwyr.

2. Mae parciau'n fannau lle dylai unigolion a theuluoedd deimlo'n ddiogel ac yn ystod pandemig y Coronafeirws, roedd llawer o drigolion yn mwynhau ac yn gwerthfawrogi eu parc lleol i allu mynd allan.
3. Mae nifer o grwpiau gwirfoddol, gan gynnwys grwpiau "Cyfeillion", sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr ac yn helpu i wella ein parciau. Mae'r Cyngor hwn yn diolch iddynt am eu gwaith caled.
4. Mae gwaith ceidwaid parciau yn hanfodol er mwyn galluogi gwaith a wneir gan grwpiau Cyfeillion a sicrhau bod parciau Caerdydd yn ddiogel ac yn cael eu rheoli'n dda.
5. Mae gweithio gyda'r heddlu yn hanfodol i gadw'r Parciau'n ddiogel ac yn cael ei reoli'n dda, ac mae'n nodi bod 21,000 o Heddweision yn y DU wedi'u diswyddo ers 2010.

Mae'r Cyngor hwn hefyd yn nodi y bu nifer fawr o ddigwyddiadau mewn parciau dros y misoedd diwethaf yn anffodus, yn amrywio o droseddau difrifol i ymddygiad gwrthgymdeithasol lefel isel.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i gyflwyno adroddiad sy'n cynnwys:

- Parhau i edrych ar ffyrdd yn ystod proses y gyllideb i gynyddu'r arian ar gyfer staff cymorth a diogelwch parciau a Grwpiau Cyfeillion wrth symud ymlaen.
- Polisi ar ble a phryd y mae'n briodol parhau i gyflwyno goleuadau mewn parciau, a pha ymgynghori fyddai'n cael ei gynnal i nodi unrhyw lwybrau y mae angen eu goleuo.
- Ystyried a ddylai'r Cyngor, ar ôl gofyn am gyngor gan yr Heddlu, gynnig gwobr lle bo'n briodol am wybodaeth sy'n arwain at arestiadau pan fydd fandaliaeth ddifrifol yn digwydd mewn parciau.

Dylid cyflwyno adroddiad o'r fath i'r Cabinet o fewn pedwar mis.

Eiliwyd y diwygiad cyntaf yn ffurfiol gan y Cynghorydd Bradbury.

Diwygiad Dau – Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol

Galwodd yr Arglwydd Faer ar y Cynghorydd Berman i gynnig yr Ail Ddiwygiad fel a ganlyn:

Yn yr adran o dan bennawd *"Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i gyflwyno adroddiad sy'n cynnwys:"*, ar ôl y trydydd pwynt bwled ychwanegu'r pedwerydd pwynt bwled ychwanegol canlynol:
"● ***Cynigion i gynnal ymgynghoriad ystyrlon â chymunedau lleol ynghylch a ddylid dychwelyd i gloi parciau lleol yn y nos ai peidio****."*

Byddai'r cynnig diwygiedig fel a ganlyn:

Noda'r Cyngor hwn y canlynol:

5. Mae parciau a mannau agored Caerdydd yn nodwedd bwysig o'r ddinas sy'n adnodd gwerthfawr ac yn lle diogel i drigolion ac ymwelwyr.
6. Mae parciau'n fannau lle dylai unigolion a theuluoedd deimlo'n ddiogel ac yn ystod pandemig y Coronafeirws, roedd llawer o drigolion yn mwynhau ac yn gwerthfawrogi eu parc lleol i allu mynd allan.
7. Mae nifer o grwpiau gwirfoddol, gan gynnwys grwpiau "Cyfeillion", sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr ac yn helpu i wella ein parciau. Mae'r Cyngor hwn yn diolch iddynt am eu gwaith caled.
8. Mae gwaith ceidwaid parciau yn hanfodol er mwyn galluogi gwaith a wneir gan grwpiau Cyfeillion a sicrhau bod parciau Caerdydd yn ddiogel ac yn cael eu rheoli'n dda.

Mae'r Cyngor hwn hefyd yn nodi y bu nifer fawr o ddigwyddiadau mewn parciau dros y misoedd diwethaf yn anffodus, yn amrywio o droseddau difrifol i ymddygiad gwrthgymdeithasol lefel isel.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i gyflwyno adroddiad sy'n cynnwys:

- Cynyddu'r cyllid sydd ar gael i geidwaid parciau. Bydd mwy o geidwaid yn helpu i wneud ein parciau'n fwy diogel ac annog grwpiau Cyfeillion i ddatblygu.
- Polisi ar ble a phryd y mae'n briodol cyflwyno goleuadau mewn parciau, a pha ymgynghori fyddai'n cael ei gynnal i nodi unrhyw lwybrau y mae angen eu goleuo.
- Ystyried a ddylai'r Cyngor, ar ôl gofyn am gyngor gan yr Heddlu, gynnig gwobr am wybodaeth sy'n arwain at arestiadau pan fydd fandaliaeth ddifrifol yn digwydd mewn parciau.
- Cynigion i gynnal ymgynghoriad ystyrlon â chymunedau lleol ynghylch a ddylid dychwelyd i gloi parciau lleol yn y nos ai peidio.

Dylid cyflwyno adroddiad o'r fath i'r Cabinet o fewn pedwar mis.

Eiliwyd yr ail ddiwygiad yn ffurfiol gan y Cynghorydd Hopkins.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y cynnig a'r diwygiadau.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Robson i ymateb i'r materion a godwyd a chadarnhaodd fod diwygiad y Democratiaid Rhyddfrydol wedi'i dderbyn.

Galwodd yr Arglwydd Faer am Bleidlais ar Ddiwygiad Un.

DERBYNIWYD y Bleidlais ar Ddiwygiad Un a gynigiwyd gan y Cynghorydd Bradbury ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Derbishire.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Bradbury i siarad cyn cynnal pleidlais ar y cynnig gwreiddiol.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar y Cynnig Terfynol fel y'i diwygiwyd gan y Grŵp Llafur.

DERBYNIWYD y bleidlais ar y Cynnig Terfynol.

85 : CWESTIYNAU AR LAFAR

Cwestiwn - y Cynghorydd Robson

Cafodd £64.89m o'r Ardrethi Annomestig a gasglwyd gan Gaerdydd ei ailddosbarthu gan Lywodraeth Cymru, tra bod cyfradd casglu Ardrethi Annomestig Caerdydd wedi gostwng 10.54%. Pa gamau yr ydych yn bwriadu eu cymryd i wella cyfraddau casglu ar gyfer gweddill blwyddyn ariannol 2021/22?

Ateb – Y Cynghorydd Weaver

Diolch am y cwestiwn, Gynghorydd Robson.

Mae'r 10.54% y cyfeiriwch ato wrth gwrs ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, y gwyddom i gyd ei fod yn flwyddyn heriol iawn i fusnesau oherwydd pandemig Covid-19.

Byddwch yn falch o wybod bod gwybodaeth ar gyfer chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol gyfredol – 2021/22 – yn dangos ein bod eisoes wedi casglu 55.69% o'r Ardrethi Annomestig hyd yn hyn ar gyfer eleni, sydd bron yn union yr un fath â'r 55.8% a gasglwyd gennym yn chwe mis cyntaf 2019/20, felly eleni mae cyfraddau casglu yn cymharu'n dda iawn â lefelau cyn y pandemig.

Mae hyn yn amlwg yn newyddion cadarnhaol iawn, ond byddwch yn sicr y bydd swyddogion yn parhau i gymryd camau priodol yn ystod gweddill y flwyddyn er mwyn cynnal y sefyllfa hon, a bydd yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n ofalus.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Robson

Mae hyn yn dda i glywed bod y gyfradd gasglu yn dychwelyd i'r arfer. O ran dosbarthu'r Ardreth Annomestig Genedlaethol a gesglir gan Gaerdydd, pa drafodaethau yr ydych yn bwriadu eu cael gyda'ch cymheiriaid yn Llywodraeth Cymru i lobïo i sicrhau bod Caerdydd yn cadw mwy o'r cyfraddau y mae'n eu casglu?

Ateb – Y Cynghorydd Weaver

Mae'r Cyngor bob amser yn trafod gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cyllid teg ar gael ledled Cymru ar gyfer pob awdurdod lleol ac mae ailddosbarthu ardrethi busnes yn rhywbeth sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i ariannu pob awdurdod lleol yn yr ardal, nid ydym am weld unrhyw awdurdod yng Nghymru heb gyllid. Wrth gwrs, yr hyn y mae'r gostyngiad hwn yn y cyfraddau casglu yn y flwyddyn bandemig yn ei ddangos yw pe baem yn gwbl ddibynnol ar ardrethi busnes fel y gofynnwyd amdano o'r blaen yn y Siambr hon, byddem mewn gwirionedd wedi gorfod cymryd yr ergyd honno ein hunain fel awdurdod ac felly, er y byddwn yn trafod y ffordd i sicrhau bod

setliad ariannu teg i bob awdurdod lleol gyda Llywodraeth Cymru, deallwn y bydd y casgliad ardrethi busnes yn parhau fel y mae ar hyn o bryd.

Cwestiwn – Y Cynghorydd Berman

Pa gyfran o fflyd casglu gwastraff y cyngor oedd â'r dechnoleg gaban (sy'n ei gwneud yn anos i griwiau methu casgliadau â chymorth a blociau o fflatiau â chymorth gyda biniau cymunedol) pan newidiwyd rowndiau casglu gwastraff ym mis Chwefror, pa gyfran sydd wedi'i darparu gyda hyn ers hynny, a pha gyfran sydd eto i'w ffitio ‘r dechnoleg?

Ateb – Y Cynghorydd Michael

Ar adeg gweithredu'r model casglu 4 diwrnod, roedd gan 61% (36) o'n 59 o Gerbydau Casglu Gwastraff dechnoleg gaban wedi'i gosod.

Roedd hyn o ganlyniad i ddarparu cerbydau casglu newydd a gallu ein contractwr i hwyluso'r gosodiadau caled yn ystod y pandemig. Dywedodd y contractwr wrthym hefyd fod oedi cyn cyflwyno'r sgriniau technoleg gaban oherwydd effaith Brexit ar y broses weithgynhyrchu.

Ar hyn o bryd mae gennym 97% o’r cerbydau casglu (57) gyda thechnoleg gaban wedi'i gosod ac, felly, nid oes gan 3% o gerbydau (2) y dechnoleg hon eto.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Berman

Diolch. O ystyried nawr mai dim ond cwpl o gerbydau sydd gennym heb y dechnoleg ac o gofio fy mod wedi gofyn o'r blaen pan fyddaf wedi cael y math hwn o gasgliadau wedi’u methu, a yw’n bosib cymryd camau i osgoi i hyn ddigwydd eto, dywedwyd wrthyf fod y dechnoleg gaban yn mynd i'w datrys. A allwch egluro pam rwyf wedi cael llu o gwynion gan Ben-y-lan yn ystod yr wythnos diwethaf neu ddwy o fwy o gasgliadau wedi’u methu, mae'n ymddangos eu bod yn digwydd yn amlach ar hyn o bryd ac a ydym yn mynd i allu ei ddatrys drwy gael y dechnoleg gaban i'r cerbydau sy'n weddill?

Ateb – Y Cynghorydd Michael

Yr ateb yw ydym, byddwn yn cael technoleg gaban i'r cerbydau sy'n weddill ond, yn ddiddorol, y broblem fwyaf sydd gennym yw nid casglu gwastraff a methu casgliadau ond y swm pur sy'n gasgliadau anghywir a ddywedwn, mae swm cynyddol o wastraff sy'n cael ei roi allan yn anghywir. Felly un o'r problemau rydym yn ei chael yw edrych ar hyn ac rydym yn mynd i'r afael â hyn yn y cynllun ailgylchu newydd sy'n dod yn fuan. Yn ddiddorol, roeddwn yn edrych ar rai ystadegau yn gynharach ac yn eich blwyddyn ddiwethaf fel Arweinydd yr ydych yn dal i gadw'r cofnod o gasgliadau a fethwyd yn 19500 a'r pwynt rwy’n ceisio'i wneud yw eich bod wedi gwneud y peth iawn bryd hynny drwy fynd i gasgliadau ddwywaith yr wythnos felly cymeroch y camau priodol, sef yr union beth yr ydym yn ceisio'i wneud. Felly rwy'n credu y bydd y dechnoleg a'r newidiadau newydd rydym yn eu gwneud yn gweld gostyngiad yn y casgliadau hynny a fethwyd a llai o halogiad i fynd gydag ef.

Cwestiwn – Y Cynghorydd Keith Parry

Faint o dai a fflatiau sy'n cael eu rhentu fel llety gwyliau gan AirBnB a dulliau eraill yng Nghaerdydd?

Ateb – Y Cynghorydd Thorne

O 30 Medi 2021, roedd gan Dîm y Dreth Gyngor yn y Gyfarwyddiaeth Adnoddau gofnodion o 3,590 o eiddo yr ystyriwyd eu bod yn anheddau wedi'u dodrefnu lle nad oes neb yn preswylio ynddynt.

Yn anffodus, ni ellir dadansoddi'r ffigur hwn ymhellach i benderfynu a yw'r rhain yn ail gartrefi, tai gwyliau, gosodiadau gwasanaeth ac eiddo wedi'i ddodrefnu sy'n wag rhwng cael eu gosod.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Keith Parry

Diolch, Arglwydd Faer. Pa gamau y gall y Cyngor eu cymryd naill ai i leihau neu reoli nifer y gosodiadau hyn gan eu bod yn cael effaith sylweddol ar westai a llety arall yn y fasnach wyliau a hefyd effaith ar lety rhent preifat wrth dynnu adeiladau o ddefnydd ar gyfer llety rhent preifat.

Ateb – Y Cynghorydd Thorne

Rwy’n cytuno'n llwyr â chi ond ar hyn o bryd nid oes gennym bwerau y gallwn eu defnyddio i gwtogi hynny, gall pobl osod eu heiddo a hynny ym mha ffordd bynnag y maent yn dewis.

Cwestiwn – Y Cynghorydd Mackie

A allech roi diweddariad i ni am yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i gefnogi'r busnesau yn Catle Emporium i adleoli?

Ateb – Y Cynghorydd Goodway

Gallaf gadarnhau bod Swyddogion Datblygu Economaidd wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o Castle Emporium pan hysbyswyd y Cyngor bod eu prydles ar fin dod i ben. Cynigiodd swyddogion gymorth i nodi lleoliadau newydd posibl ar gyfer y busnes, safleoedd o fewn rheolaeth y Cyngor, yn ogystal â'r rhai sydd ar gael yn breifat.

Bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu cymorth i edrych ar atebion dros dro a pharhaol ar gyfer Castle Emporium.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Mackie

Yn fwy cyffredinol, beth mae'r Cyngor yn ei wneud i feithrin, annog a chefnogi manwerthwyr annibynnol sy'n dod â chymaint o amrywiaeth i gynnig manwerthu Caerdydd?

Ateb – Y Cynghorydd Goodway

Mae'r Cyngor yn cydnabod y rôl y mae manwerthwyr lleol, annibynnol yn ei chyflwyno i'r ddinas – o ran datblygu ein busnesau ein hunain, ond hefyd y rôl y mae busnesau o'r fath yn ei chwarae wrth ddenu pobl i Gaerdydd.

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno cais Cronfa Codi’r Gwastad i Lywodraeth y DU am fuddsoddiad ym Marchnad Caerdydd i ddarparu cartref o'r radd flaenaf yng nghanol y ddinas ar gyfer busnesau annibynnol.

Mae'r Cyngor yn archwilio cynigion gyda Caerdydd AM BYTH ar gyfer rhaglen 'defnydd yn y cyfamser' ar gyfer eiddo a lleoedd gwag sydd heb eu defnyddio'n ddigonol i ddarparu lle i fusnesau annibynnol sy'n datblygu.

Mae'r Cyngor hefyd wrthi'n gweithio gyda pherchnogion eiddo a datblygwyr i sicrhau bod datblygiadau presennol ac yn y dyfodol yn cefnogi manwerthwyr annibynnol, felly mae ystod eang o weithgareddau rydym yn ymgymryd â hwy ar hyn o bryd wedi'u cynllunio i wneud yr union beth rydych yn gofyn amdano. Rhaid i mi ddweud y bydd yn cymryd peth amser i werthuso pa mor llwyddiannus yr ydym wedi bod.

Cwestiwn – Y Cynghorydd Driscoll

A fydd y cyngor yn hwyluso neu'n cynnal dathliadau coelcerth/tân gwyllt yng Nghae Cooper eleni?

Ateb – Y Cynghorydd Bradbury

Derbyniodd a hwylusodd y Cyngor archeb gan Ford Gron Caerdydd ar gyfer eu noson dân gwyllt "Sparks in the Park" flynyddol boblogaidd a'r noson codi arian a drefnwyd ar gyfer dydd Sadwrn 6 Tachwedd ym Mharc Bute.

Yn anffodus, canslodd trefnwyr y digwyddiad eu harcheb ym mis Awst ar ôl methu â sicrhau prif noddwr. Oherwydd hyn, ynghyd ag effeithiau covid ac ansicrwydd, penderfynodd y trefnwyr nad oedd y digwyddiad yn ymarferol yn 2021.

Rydym yn edrych ymlaen at dderbyn cais ar gyfer y digwyddiad o Ford Gron Caerdydd yn 2022 ac mae'r Cyngor yn barod i ddarparu cefnogaeth yn y ffordd arferol.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Driscoll

Diolch am eich ateb, mae hyn yn siomedig iawn oherwydd mae'n amlwg ei fod yn ddigwyddiad poblogaidd a drefnir gan Ford Gron Caerdydd gyda ymhell dros 4000 o bobl yn mynychu dathliadau yn y gorffennol a gwelaf fod Cyngor Abertawe'n bwrw ymlaen â digwyddiad felly a allwch egluro a yw'n cael ei ganslo oherwydd yr argyfwng hinsawdd neu ai effaith amgylcheddol llygredd aer yw efallai rhai o'r

rhesymau y tu ôl iddo neu a yw'n peri pryder o gwmpas effeithiau ar anifeiliaid anwes ac anifeiliaid neu dim ond oherwydd na allent ddod o hyd i noddwr ar gyfer y digwyddiad?

<u>Ateb – Y Cynghorydd Bradbury</u>

Diolch i chi, Gynghorydd. Rwyf wedi cael gwybod ei fod oherwydd na allent sicrhau prif noddwr a'u bod wedi cael effeithiau covid ac ansicrwydd ynghylch y pandemig. Fel yr wyf wedi dweud ein bod wedi cefnogi'r digwyddiad hwn ers degawdau, cafodd y digwyddiad ei ganslo hefyd y llynedd a fyddai wedi bod yn 40fed pen-blwydd, mae'n ddigwyddiad hynod o bwysig i ni, rydym am ei weld yn ôl ac rydym am ei weld yn cael ei fwynhau mewn lleoliad gwych yng nghanol y ddinas felly rwy'n golygu na fu’r Cyngor erioed yn ei atal rhag digwydd, roedd yn benderfyniad a wnaed gan drefnwyr y digwyddiad eu hunain.

<u>Cwestiwn – Y Cynghorydd Sandrey</u>

Pa gamau y mae'r cyngor yn eu cymryd i sicrhau bod parcio bathodyn glas yng nghanol y ddinas nid yn unig yn cael ei gadw ond ei wella?

<u>Ateb – Y Cynghorydd Wild</u>

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r Grŵp Ffocws Mynediad i ymgynghori ar gynlluniau trafnidiaeth a chael cyngor ar nifer y lleoedd parcio i'r anabl. Ar hyn o bryd, nid ydym yn ymwybodol o brinder lleoedd a bydd unrhyw gynlluniau trafnidiaeth newydd bob amser yn ceisio adleoli'n strategol a pheidio â disodli lleoedd parcio i'r anabl.

<u>Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Sandrey</u>

Y rheswm rwy’n codi'r pwynt hwn yw oherwydd ac nid wyf yn siŵr a ydych yn ymwybodol ohono, bu rhywfaint o ddadlau yng Nghanol Dinas Caerefrog o ran parcio bathodyn glas a mynediad yn cael ei dynnu i ffwrdd ac yr oeddwn am godi'r mater hwn oherwydd rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn gweithio gyda phobl ac nid dim ond gwneud pethau iddynt heb weithio gyda hwy felly allwch chi dawelu meddwl y Cyngor na fyddwn yn ailadrodd yr hyn y mae Caerefrog wedi'i wneud?

<u>Ateb – Y Cynghorydd Wild</u>

Diolch Gynghorydd Sandrey. Nid oeddwn yn ymwneud â Chaerefrog cymaint i wybod beth sy'n digwydd ond gallaf, gallaf eich sicrhau bod gennym 109 o leoedd penodol i bobl anabl yng Nghaerdydd, pob math o fannau eraill lle rydym yn caniatáu i bobl â bathodynnau glas barcio am ddim mewn llawer o'n mannau parcio talu ac arddangos. Gallaf eich sicrhau bod hyn ar frig ein blaenoriaeth i sicrhau bod pobl ag anabledd, pobl â bathodynnau glas yn gallu mynd o gwmpas a symud ymlaen gyda’u bywydau mewn ffordd dda.

<u>Cwestiwn – Y Cynghorydd Keith Parry</u>

Sawl Ail Gartref sydd yng Nghaerdydd?

Ateb – Y Cynghorydd Thorne

Byddwn yn eich cyfeirio at y ffigur a ddarparwyd yn fy ateb i'ch Cwestiwn Llafar cynharach.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Keith Parry

A oes gennych unrhyw gynlluniau i gynyddu'r dreth gyngor ar ail gartrefi fel y mae rhai Cynghorau wedi'i wneud mewn gwahanol rannau o'r wlad?

Ateb – Y Cynghorydd Thorne

Rydym wedi cynyddu'r dreth gyngor ar eiddo gwag ond rwy'n siŵr y gallaf ofyn i'm cydweithiwr, y Cynghorydd Weaver, edrych ar hynny.

Cwestiwn – Y Cynghorydd Henshaw

Roeddwn wrth fy modd o glywed bod Gerddi Waterloo wedi ennill Gwobr Werdd am ragoriaeth yr wythnos diwethaf. Mae'r parciau hyn mewn gwirionedd yn drysorau yng nghoron y ddinas, a gwn fod pobl yn teithio, nid yn unig o bob rhan o Gaerdydd, ond o bob rhan o'r ddinas-ranbarth i ymweld â hwy. A allai'r aelod o'r Cabinet amlinellu'r cynlluniau i gynnal y lefel hon o gyflawniad, a sicrhau rhagor o ddyfarniadau'r Faner Werdd? Rwy'n arbennig o awyddus i'm parc lleol yn Sblot sicrhau'r wobr hon yn y dyfodol.

Ateb – Y Cynghorydd Bradbury

Mae'r Cyngor yn falch iawn o fod wedi ennill y nifer uchaf erioed o wobrau'r Faner Werdd ar gyfer parciau a mannau gwyrdd y ddinas.

O ran cynnal ein statws Baner Werdd, rydym, drwy gydol oes y Rhaglen Gyfalaf, wedi ymrwymo i fuddsoddi £400,000 mewn gwelliannau i'r seilwaith, gan sicrhau bod camau gweithredu allweddol o fewn cynlluniau rheoli yn cael eu cyflawni.

Yn ystod yr haf, gofynnais i swyddogion gynnal ymarfer hunanasesu er mwyn llywio ein blaengynllun o gyflwyniadau dyfarnu newydd.

Cefnogwyd yr ymarfer hwn gan Cadwch Gymru'n Daclus a phenderfynwyd y dylid cyflwyno Llyn Hendre yn ward Trowbridge ar gyfer Baner Werdd yn 2022.

Rhoddir ystyriaeth hefyd i gynnwys cyflwyniad ar gyfer Parc Sblot yn y dyfodol o fewn y blaengynllun.

Cwestiwn – Y Cynghorydd Hudson

Yn unol â'r ymrwymiad i gael dinas sy'n dda i bobl hŷn i bobl Caerdydd, a wnaiff y Cyngor hefyd ymrwymo i leoedd mwy hygyrch i'r anabl yng nghanol y ddinas?

Ateb – Y Cynghorydd Wild

Gallaf eich sicrhau bod parcio i'r anabl yn cael ei ystyried yn briodol wrth gynllunio canol y ddinas – ac y bydd yn cael ei ystyried yn briodol. Bydd hyn yn rhan o'r gwaith o gynllunio'r cynlluniau hyn, a bydd swyddogion yn cyfarfod i drafod ble y gallem adolygu'r cilfannau presennol ar gyfer safleoedd tacsis, llwytho ac ati gyda'r bwriad o greu mwy o fannau i yrwyr anabl os yw'n bosibl ac os oes angen.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Hudson

A fyddech cystal â chael mannau o amgylch y Ddinas ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol fel yr Aes, Canolfan Dewi Sant oherwydd fel arfer bydd Ffair Nadolig yno, Canolfan y Mileniwm gan eu bod yn brin iawn yn yr ardaloedd hyn ac nad ydynt yn hawdd eu cyrraedd.

Ateb – Y Cynghorydd Wild

Bydd rhaid i ni wirio hynny ac fel y dywedais yn fy ateb blaenorol, fy nealltwriaeth i yw bod Dewi Sant yn gwbl addas ar gyfer deiliaid bathodyn glas, mae llawer o leoedd parcio hygyrch yno, felly os oes problem neu os ydych yn meddwl am rai, anfonwch nhw drwodd ataf fel y gallaf wirio gan nad oedd yn rhywbeth yr oeddwn yn ymwybodol ohono.

Cwestiwn – Y Cynghorydd Berman

A yw'r cyngor wedi ymgynghori â dinasyddion Caerdydd yn ei gyfanrwydd ar yr egwyddor o ddisodli gofod ffyrdd y gellir ei ddefnyddio gan fysus a beiciau ond nid ceir preifat â gofod ffordd na ellir ond ei ddefnyddio ar gyfer beicio (gan roi blaenoriaeth i feicwyr dros ddefnyddwyr bysus) ac, os felly, sut y gwnaed hyn, beth oedd y canlyniad ac a oedd yr egwyddor yn destun asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb?

Ateb – Y Cynghorydd Wild

Mae Papur Gwyn Trafnidiaeth y Cyngor yn rhoi ymrwymiad clir i ailflaenoriaethu strydoedd Caerdydd er mwyn rhoi mwy o le i bobl gerdded a beicio a buddsoddi mewn rhwydwaith o lwybrau beicio ar wahân ledled y ddinas.

Cynhyrchwyd y Papur Gwyn yn dilyn proses helaeth o ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid, a ddechreuodd gyda gwaith ar y Papur Gwyrdd Trafnidiaeth ac Aer Glân blaenorol a helpodd i lywio'r blaenoriaethau yn y Papur Gwyn. Cynhyrchwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd i gefnogi'r Papur Gwyn Trafnidiaeth.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Berman

Diolch am hynny ond nid oedd yr hyn yr ydych wedi'i ddweud yno yn cynnwys y syniad o ddisodli lonydd bysus yn y bôn gyda lonydd y gall bysus a beicwyr eu defnyddio lle mae'r ddau flaenoriaeth allweddol dros geir, gyda lle y gall beicwyr yn unig ei ddefnyddio fel bod beicwyr i bob pwrpas yn cael blaenoriaeth dros fysiau ac mae hyn wedi'i wneud yn ddiweddar ar Heol Casnewydd gyda ffordd feicio ar wahân newydd ac mae wedi'i wneud ar draul lôn fysiau sy'n yn golygu bod yn rhaid i'r bysus

bellach rannu'r un trac ag y mae'r car yn ei ddefnyddio ac mae hyn yn mynd i arafu bysus sy'n mynd allan i'r dwyrain o'r ddinas ac rwy'n poeni'n fawr am yr effaith ar hyn oherwydd yn amlwg mae defnyddwyr bysus yn mynd i ganfod y bydd eu teithiau bws adref o'r dref yn arafach, felly a ydym wedi ymgynghori mewn gwirionedd ynghylch sut y gallwn wneud i feicwyr gael mwy o flaenoriaeth na bysus. Does gen i ddim problem gyda beicwyr yn cael mwy o flaenoriaeth na cheir ond rwy'n credu bod problem pan mae beicwyr yn cael mwy o flaenoriaeth na bysus.

Ateb – Y Cynghorydd Wild

Nid wyf yn deall yn iawn y gwaith o gwmpas hynny, rwy'n golygu nad yw lôn fysus yn lôn feicio ac mae angen i feicwyr, yn enwedig ar ffyrdd prysur, gael lle ar wahân iddynt deimlo'n ddiogel i feicio a'ch bod yn gwybod bod hynny wedi'i ddogfennu'n dda ac wedi'i gytuno'n dda yn y Siambr hon gan bron bob ochr. Mae rhai achosion ar draws y ddinas rydym yn gwybod nad oes digon o le i ddarparu pob math o drafnidiaeth gyda'u lôn bwrpasol eu hunain ac rydym yn gorfod gwneud penderfyniadau ar y math cywir o drafnidiaeth i'w blaenoriaethu ond gydag ailflaenoriaethu i gerddwyr, i feicio, pobl sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, sef yr hyn rydym yn ei wneud. O ran lôn fysus Heol Casnewydd, nid oeddwn yn gwybod eich bod yn gwrthwynebu'r llwybr beicio ar Heol Casnewydd, rydym yn ymwybodol o rai materion o ran amseriad y cyffyrdd ac roeddent yn gweithio'n galed gyda darparwyr bysus i sicrhau eu bod yn gallu mynd drwodd. Credaf, oherwydd y rhai o'r materion hynny, mae'n debyg y byddwn yn dal rhai o'r estyniadau ar y cyffyrdd hynny'n ôl i sicrhau y gall bysus fynd drwodd, nid yw hyn yn hawdd, Gynghorydd Berman, ond mae'r ailflaenoriaethu a sut yr ydym yn ymgynghori arno wedi bod yn gwbl glir ond rydym yn gwneud y newidiadau sydd eu hangen er mwyn iechyd y ddinas hon ac i wneud yr holl bethau yr ydym am eu gwneud o ran canol dinas flaengar cadarnhaol.

Cwestiwn – Y Cynghorydd Keith Parry

Faint o allfeydd carthffosiaeth sydd yna sy'n rhyddhau carthffosiaeth heb ei thrin i Afon Elái naill ai'n gyson neu ar adegau o law trwm?

Ateb – Y Cynghorydd Michael

Dŵr Cymru Welsh Water sy'n gyfrifol am allfeydd carthffosiaeth a'u lleoliad a'u gwybodaeth weithredol.

Mae ymchwiliadau i unrhyw ddigwyddiadau llygredd a digwyddiadau rhyddhau carthffosiaeth i brif afonydd yn cael eu cynnal gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a fydd wedyn yn gofyn am gymorth os oes angen defnyddio pwerau gorfodi sydd gan y Cyngor.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Keith Parry

Rwy'n siŵr mai'r Cyngor sy'n gyfrifol am adeiladu gollyngfeydd carthffosiaeth, lle rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer ystadau tai.

Ateb – Y Cynghorydd Michael

Nid dyna'r cwestiwn a ofynasoch i mi.

Cwestiwn - Y Cynghorydd Patel

Mae'n wych gweld ffrâm adeiladu Ysgol Uwchradd Fitzalan newydd yn dod allan o'r ddaear yn Lecwydd. A allai'r Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y ffordd y mae'r gwaith adeiladu'n mynd rhagddo?

Ateb – Y Cynghorydd Merry

Rwy’n falch bod y prosiect cyffredinol yn mynd rhagddo'n dda ac mae'n dda gweld rhai elfennau'n dod i'w cwblhau erbyn hyn, megis y meysydd chwaraeon a'r cyfleusterau cysylltiedig.

O ran adeilad newydd yr ysgol ei hun, mae hynny hefyd yn mynd rhagddo'n dda, gyda'r sylfeini, y pyst seiliau a thros 90% o'r gwaith dur wedi'i gwblhau.

Mae'r rhaglen yn anelu at sicrhau bod yr adeilad newydd yn hollol ddyfrglos erbyn dechrau'r Gwanwyn y flwyddyn nesaf, gyda'r gwaith wedi'i gwblhau erbyn canol 2023.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Patel
A fyddech yn cytuno mai hon yw'r ysgol drutaf yng Nghymru a fydd yn amlwg yn cefnogi ein pobl ifanc yn y dyfodol ac yn enwedig plant Treganna?

Ateb – Y Cynghorydd Merry

Rwy'n cytuno ei fod yn ychwanegiad gwych i'n sefydliadau addysgol, Gynghorydd Patel, ond ni fyddwn yn hoffi cymharu costau.

Cwestiwn – Y Cynghorydd Parkhill

Yn y gorffennol mae Arweinydd y Cyngor wedi nodi ei gefnogaeth i adeiladu ffyrdd newydd yn y Ddinas. Sut yr ydych yn ystyried y bydd moratoriwm Llywodraeth Cymru ar adeiladu ffyrdd newydd yn effeithio ar y cynlluniau ar gyfer rhwydwaith ffyrdd Caerdydd yn y dyfodol?

Ateb – Y Cynghorydd Huw Thomas

Rydych yn iawn, rwyf wedi tynnu sylw yn y gorffennol at y ffaith mai dim ond cilomedr o ffordd newydd sydd wedi'i adeiladu yng Nghaerdydd ers datganoli a chredaf fod achos cryf i'w wneud yn arbennig o amgylch ffordd gyswllt ddwyreiniol y bae sy'n cwblhau o gylchfan Porth y Frenhines hyd at ddiwedd Ffordd Rover i'w uwchraddio a chredaf fod hynny'n bwysig nid yn unig fel porth i'r ddinas a Bae Caerdydd ond fel ffordd o ddargyfeirio traffig i ffwrdd o ardaloedd preswyl gan gynnwys yn enwedig yn fy Ward fy hun yn Sblot. Fodd bynnag, er mwyn bod yn glir, nid yw'n foratoriwm, mae'n adolygiad naw mis sy'n ceisio ystyried yr holl gynlluniau risg uchel ledled Cymru a cheisio lleihau'r ôl troed carbon yng Nghymru a diogelu pobl a bywyd gwyllt rhag yr argyfwng hinsawdd ac rwy'n ei groesawu ac rwy'n ei gefnogi a'm gobaith yw,

drwy gynnal yr adolygiad hwn sy'n datgloi cyllid cyfalaf llywodraeth Cymru y gellir ei ddefnyddio wedyn ar ble yw'r angen mwyaf priodol a mwyaf blaenoriaethol ar gyfer adeiladu ffyrdd a hefyd lle mae prosiectau'n cael eu heithrio yw y gellid dargyfeirio arian i fuddsoddiad seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus y mae mawr ei angen hefyd y byddwn yn sicr yn cyflwyno achos i lywodraeth Cymru y mae ei hangen yng Nghaerdydd.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Parkhill

Diolch i'r Arglwydd Faer ac mae'n dda clywed y byddwch yn cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru am y cyllid atodol hwnnw ar gyfer adeiladu ffyrdd newydd a pha gyfarfodydd a thrafodaethau y byddwch yn eu cael yn benodol gyda gweinidogion yn ystod y tri mis nesaf?

Ateb – Y Cynghorydd Huw Thomas

Nid wyf yn gwybod am y Cynghorydd Parker. Nid wyf yn gwybod sut olwg sydd ar fy nyddiadur dros yr ychydig fisoedd nesaf ond gallwch fod yn dawel eich meddwl bod y sgwrs honno ar lefel swyddogol wedi bod yn digwydd ers rhai blynyddoedd bellach a chyda'r manylion da, byddaf yn sicr yn cyflwyno sylwadau pan fyddaf yn cwrdd â'r gweinidog newid yn yr hinsawdd a'r Dirprwy Weinidog dros Drafnidiaeth nesaf o bwysigrwydd y ffordd honno ond hefyd yn hollbwysig ac i fod yn glir yr oeddwn yn dweud y dylid defnyddio gwariant cyfalaf a ddatgloir gan yr adolygiad hwn hefyd ar gyfer seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig cyflawni strategaeth drafnidiaeth Caerdydd sy'n gwneud cyfraniad sylfaenol at ein hymgyrch i fod yn sero-net erbyn 2030.

Cwestiwn - y Cynghorydd Carter

A allai'r aelod cabinet ymchwilio i ffyrdd o ailagor Canolfan Hamdden Pentwyn yn rhannol yn y cyfnod cyn ailddatblygu'r adeilad?

Ateb – Y Cynghorydd Bradbury

Rwyf wedi gofyn i swyddogion archwilio unrhyw gyfleoedd o'r fath a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r ward maes o law.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Carter

A allwch roi sicrwydd y byddwch yn parhau i ymgysylltu â Chynghorwyr drwy gydol y gwaith ailddatblygu, ac mae'n amlwg bod amseroedd wedi llithro, roeddem yn adlewyrchu'r diwrnod o'r blaen ei bod tua blwyddyn ers i ni gael gweld y cynigion gwych a bod pethau wedi cymryd mwy o amser nag y gallem fod wedi'i ddymuno, felly a allwch roi sicrwydd y byddwch chi a swyddogion yn parhau i ymgysylltu ag aelodau wardiau'n rheolaidd ar y mater hwn?

Ateb – Y Cynghorydd Bradbury

Gynghorydd, rhoddaf yr ymrwymiad hwnnw, mae amserlenni wedi llithro mewn ffordd y mae'r bwrdd iechyd yn gadael ac yn ceisio rhoi'r adeilad ar waith tra byddwn yn

rhoi'r cynlluniau cynllunio ar waith ond rwy'n hyderus y byddwn yn gallu cael rhywbeth i chi o ran cynllunio maes o law yn y dyfodol agos iawn, felly rwy’n hapus iawn i gwrdd â chi fel y gwyddoch chi a'ch cydweithwyr yn y ward fod fy nrws rhithwir ar agor.

Cwestiwn – y Cynghorydd Ford

Os bydd car yn troi oddi ar y ffordd i faes parcio neu i mewn i'r stryd o'r cynllun palmentydd sydd newydd eu gosod, pwy sydd â'r hawl tramwy, gyrrwr y car neu'r cerddwyr?

Ateb – Y Cynghorydd Wild

Ar hyn o bryd, mae Rheol 170 o Reolau’r Ffordd Fawr yn cynghori gyrwyr cerbydau i gymryd gofal ychwanegol wrth gyffyrdd ac i wylio am gerddwyr yn croesi ffordd y maent yn troi iddi. Mae hefyd yn rhoi blaenoriaeth i gerddwyr unwaith y byddant wedi dechrau croesi ac yn ei gwneud yn ofynnol i gerbydau ildio.

Mae Rheol 206 o Reolau’r Ffordd Fawr hefyd yn cynghori gyrwyr cerbydau i yrru'n ofalus ac yn araf wrth droi wrth gyffyrdd ffyrdd ac i ildio i gerddwyr sydd eisoes yn croesi'r ffordd y maent yn troi iddi.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Ford

A allwch ddweud wrthyf felly, pam mae tyllau enfawr yn Heol y Bont-faen mae tyllau yn y palmentydd ac yn y ffyrdd sef Ffordd Alexandra, pam mae'r tyllau hyn wedi'u gadael, mae'n gwbl annerbyniol y gallai trigolion dorri eu pigyrnau neu gael eu hanafu'n fwy difrifol pryd y byddwch yn ymchwilio i'r mater hwn ac a fyddwch yn cael ei drin ac a allech roi amserlen neu ddyddiad i mi?

Ateb – Y Cynghorydd Wild

Doeddwn i ddim yn gwybod hyn, Gynghorydd Ford, diolch am fy ngwneud i'n ymwybodol. Byddaf yn mynd yn syth ati bore yfory i gael gwybod beth yw'r problemau.

Cwestiwn – y Cynghorydd Owen-Jones

Roedd Strategaeth Drafnidiaeth y Cyngor y llynedd yn targedu newid mewn mathau o deithiau, gyda'r nod o 60% o deithiau a wneir drwy ddulliau cynaliadwy. Gyda nifer yr ymwelwyr yng Nghanol y Ddinas yn dychwelyd i lefelau cyn y pandemig – sy'n dda iawn i'w glywed, pa mor llwyddiannus y mae'r Cyngor wedi bod o ran annog y newid moddol hwnnw?

Ateb – Y Cynghorydd Wild

Diolch i'r Cynghorydd Jones, fel y gwyddoch, mae'r Cyngor, busnesau a thrigolion wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda'i gilydd i wneud yr hyn a allant i sicrhau bod y Ddinas yn cael eu hadfer mewn ffordd gynaliadwy a hefyd i sicrhau ein bod yn galluogi cymaint o bobl â phosibl i deithio mewn ffyrdd iach cynaliadwy. Roedd y

mentrau beicio dros dro yn enghreifftiau o'r math o gamau a gymerwyd gennym, ac ers mis Mawrth 2020 mae cyfran y teithiau a wneir gan bob modd wedi amrywio mewn ymateb i newidiadau o amgylch cyfyngiadau COVID-19 ond serch hynny mae'r amcangyfrifon diweddaraf yn gosod y rhaniad modd presennol i fod tua 56% o'r holl deithiau sy'n cael eu gwneud drwy ddulliau cynaliadwy a 44% mewn car sydd, fel y gwyddoch, yn gamau i'r cyfeiriad cywir ond yn arbennig y ffigurau diweddaraf o'r data rydym wedi bod yn ei gasglu yw bod pob math o ddulliau trafnidiaeth gynaliadwy yn dychwelyd yn raddol ond mae beicio'n 130% o lefelau cyn y pandemig ac mae cerdded eithaf rhyfeddol bron wedi dyblu o ran hynny ers mis Mawrth y llynedd.

Cwestiynau Atodol – Y Cynghorydd Owen-Jones

Mae'n dda iawn clywed bod rhai o'r dulliau hynny, yn enwedig cerdded yn dyblu ac efallai ailadrodd yr hyn a ddywedodd y Cynghorydd Berman yn gynharach er y gallwn geisio canolbwyntio i sicrhau, pan fydd teithiau fel beicio a cherdded yn codi, fod y rhain yn cael eu tynnu allan o deithiau mewn ceir yn hytrach na'u bod o bosibl allan o ddefnydd bysus ac yr ydym am sicrhau bod pob dull trafnidiaeth gynaliadwy yn codi tra bod y defnydd o geir preifat yn mynd i lawr.

Ateb – Y Cynghorydd Wild

Dyna'r cynllun ac wrth gwrs ein bod yn ceisio gwneud hynny ond mae'n rhaid i ni hefyd reoli rhwydwaith gyda llawer iawn o geir yn ceisio mynd o gwmpas y lle ac er eich bod yn gwybod y gallai ymddangos yn syml i'w hatal neu leihau eu lle gwyddom y gall achosi problemau eithaf difrifol ynghylch ansawdd tagfeydd neu bob math o bethau gwahanol yng nghanol y ddinas ac o'i hamgylch, felly mae'n dda cael ei wneud mewn ffordd gytbwys. Mae gennym dîm da allan yna yn cadw llygad arno ac yn ceisio cadw pethau i lifo, mae newidiadau i ddod o hyd, onid oes, ac mae gennym gyfnod prysur gyda'r Nadolig yn dod felly byddwn yn sicr yn cadw ar ei ben ond byddwn yn gwasgu cymaint â phosibl i geisio sicrhau bod pobl yn cael eu galluogi i wneud y dewisiadau cynaliadwy

Cwestiwn – y Cynghorydd Jones-Pritchard

Yn 2019 trafodwyd pryderon cyffredin am nifer y plant AHY a'r cannoedd cudd o blant nad ydynt wedi'u cofrestru. Mae tystiolaeth bod nifer y plant AHY hysbys, a chudd, wedi cynyddu ers mis Mawrth y llynedd, gydag effaith y cyfnodau clo ar addysg. Pa wybodaeth sydd gan y cyngor am niferoedd ac oedrannau'r plant AHY sy'n cael eu hadnabod ar hyn o bryd, y rhai hysbys a’r rhai yr amheuir amdanynt?

Ateb – Y Cynghorydd Merry

Diolch am eich cwestiwn, Gynghorydd Jones-Pritchard, ceisiaf ateb cystal ag y gallaf, ond mae ffigurau (AHY) mewn gwirionedd yn dod o dan set wahanol o nodweddion, mae ar wahân i addysg ddewisol yn y cartref.

Mae Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY) yn cynnwys:

- addysg sy'n cynnwys ysgolion nas cynhelir;

- ysgolion annibynnol;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- sefydliadau diogel;
- lleoliadau coleg; a
- hyfforddiant am resymau iechyd.

Nid yw ein systemau'n dangos "cannoedd cudd" o blant a phobl ifanc, ac nid oes unrhyw wybodaeth am hyn yn wir o weithio gyda'n holl rwydweithiau.

Ar hyn o bryd mae 197 o blant a phobl ifanc yn y gwahanol ddarpariaethau AHY. Mae hyn yn cynnwys:

- 14 disgybl ysgol gynradd;
- 13 yng Nghyfnod Allweddol 3;
- 148 yng Nghyfnod Allweddol 4; a
- 22 yn addysg Ôl-16.

Gwybodaeth yn ymwneud ag Addysg Ddewisol yn y Cartref, mae ffigurau wedi cynyddu o 230 yn 2020 i 371 ym mis Hydref 2021 ond mae rhywfaint o hynny'n cynnwys plant o deuluoedd sy'n poeni am ddod â Covid i'r cartref, ac rydym yn ymwybodol o iechyd a lles ein disgyblion efallai'n cynyddu gorbryder ac ati felly rwy'n gobeithio fy mod wedi ateb eich cwestiwn ond rwy'n hapus i ofyn i Swyddogion am fwy o fanylion os oes angen.

<u>Cwestiwn atodol – Y Cynghorydd Jones-Pritchard</u>

Oes, mae hynny'n fwy o wybodaeth na'r disgwyl am hynny ond, oes, mae'r niferoedd wedi cynyddu wrth i chi gadarnhau yno a gallaf ddeall y rhesymau y tu ôl i hynny. O ran y rhai sy'n cael eu haddysgu gartref yn ddewisol, gwnaethom drafod anhawster y cyngor i fonitro ansawdd yr addysg honno gyda'r ddeddfwriaeth, a oes unrhyw welliant yng ngallu swyddogion yn hynny o beth?

<u>Ateb – Y Cynghorydd Merry</u>

Roedd gobaith y bydd newid yn y drefn. Credaf fod y rhan fwyaf o'r twf penodol hwn wedi dod o blant yn y sector ysgolion mewn gwirionedd felly gobeithiaf yn hynny o beth nad ydynt o leiaf yn blant nad yw'r system yn ymwybodol ohonynt a chredaf fod gennym bryderon penodol am blant nad oeddent erioed wedi bod yn yr ysgol yn y bôn a'r risg y gallent adael y system yn llwyr ond os rydych chi'n anfon e-bost ataf i weld beth arall y gallaf ei ddarganfod i chi o ran y categori penodol hwnnw o ddisgyblion.

<u>Cwestiwn - y Cynghorydd Carter</u>

Sut mae safleoedd yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer ariannu llwybrau diogel i'r ysgol?

Ateb – Y Cynghorydd Wild

Yn hanesyddol, mae cynlluniau seilwaith ysgolion wedi'u blaenoriaethu ar gyfer ariannu a darparu diogelwch ar y ffyrdd drwy ddull gwrthrychol, sy'n ystyried ffactorau gan gynnwys llif traffig, cyflymder traffig, gwrthdrawiadau, cynllun y safle a'r amser y mae cynllun wedi bod yn aros i gael ei gyflawni.

Mae’n hymgysylltiad ag ysgolion drwy'r rhaglen Ysgolion Teithio Llesol wedi tynnu sylw at y ffaith bod angen mesurau ar y safle ac oddi ar y safle ar lawer o ysgolion i wella diogelwch a hwyluso teithio llesol i'r ysgol. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys llwybrau newydd, llwybrau, mynedfeydd, croesfannau, cyfyngiadau parcio a Strydoedd Ysgol.

I fynd i'r afael â’r angen hwn, rydym yn gweithio i ddatblygu ffordd newydd o flaenoriaethu cynlluniau ysgolion. Ni fydd hyn yn hawdd, gan fod anghenion a gofynion seilwaith gwahanol ysgolion yn debygol o fod yn eithaf tebyg. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd lefel ymrwymiad ysgol i hyrwyddo teithio llesol i'r ysgol ac oddi yno a chyflawni ei Chynllun Teithio Llesol yn cael ei chynnwys yn y meini prawf newydd.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Carter

Diolch am ymateb manwl iawn y Cynghorydd Wild. Yn fy Ward ym Mhentwyn a Llanederyn mae gennym un ysgol benodol Ysgol Gynradd Llanedern sydd wedi bod ar y rhestr aros am lwybrau diogelach i'r ysgol ers dros bum mlynedd os nad wyth mlynedd bellach. Yn y cyfnod hwnnw mae parcio wedi gwaethygu, mae perygl wedi cynyddu ac mae'n eithaf gwallgof ac anhrefnus yno. A allech ymrwymo edrych ar y prosiect penodol hwn pan ddaw wrth eich desg a'i adolygu, mae swyddogion wedi ymweld â hi ddwywaith a minnau ac rydym bob amser yn croesawu ymweliad safle os credwch y byddai'n ddefnyddiol.

Ateb – Y Cynghorydd Wild

Yn bendant, mae hynny'n ddiddorol ac rwy'n dyfalu efallai bod y cliwiau yn fy ateb gan nad wyf yn gwybod yn union ble maent gyda'u cynllun teithio llesol, beth fyddai'n awgrym gennyf fi yw ein bod yn annog ysgolion i weithio drwy eu cynlluniau teithio llesol, credaf y bydd hynny'n ffordd well o lawer i ni flaenoriaethu'r cynlluniau hyn a chael mwy o arian i mewn i'r cynlluniau hyn oherwydd bod cyllidebau ar gyfer teithio llesol yn gymharol uchel gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd rydych yn gwybod am gynlluniau diogelwch ysgolion ac ati nad yw'r arian hwnnw'n mynd yn bell o ran cynlluniau diogelwch ar y ffyrdd felly efallai gadewch i ni edrych ar hynny. A rhaid i mi ddweud nad wyf yn gwybod yn union ble maen nhw'n gweithio gyda hynny ond rwy'n gwybod bod gennym rai swyddogion gwych a fydd yn cefnogi ysgol ragweithiol yn y mater hwnnw.

Cwestiwn – Y Cynghorydd Dilwar Ali

Pa mor bryderus ydych chi am y pwysau gaeaf sydd ar ddod a'n gallu i gefnogi ein preswylwyr hŷn sy'n agored i niwed?

Ateb- Y Cynghorydd Elsmore

Mae hwn yn amlwg yn fater pwysig iawn ac fel y clywsoch mewn manylder yn benodol y mis diwethaf, mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru yn wynebu heriau na welwyd eu tebyg o'r blaen ar hyn o bryd, felly mewn perthynas â Chaerdydd bu cynnydd parhaus yn y galw am ofal cartref ers yr haf, mae'r cynnydd mewn atgyfeiriadau dros 35% ac mae hynny o'i gymharu â lefelau cyn y pandemig felly mae'r cynnydd hwn yn y galw ynghyd â, fel y gwyddoch, heriau difrifol iawn yn y sector o ran gweithlu yn golygu ein bod yn gorfod lliniaru drwy arloesi a chael pethau eraill ar waith. Felly er ein bod yn hyderus y byddwn yn dal i allu diwallu anghenion gofal ein preswylwyr hŷn sy'n agored i niwed, mae oedi ac maent yn arafach na'r arfer i roi'r gofal hwnnw ar waith. Fodd bynnag, yr hyn sy'n galonogol yw'r gwaith partneriaeth sy'n cael ei wneud gydag iechyd lle rydym yn gweithio gyda'n gilydd ar draws iechyd a gofal cymdeithasol o ran tyfu ein gweithlu gyda'n gilydd, prentisiaid er enghraifft. Rwy’n hapus iawn i roi mwy o fanylion i chi am hynny.

Cwestiwn Atodol- Y Cynghorydd Dilwar Ali

Diolch am eich ymateb manwl, pa drafodaethau yr ydych yn eu cael gyda'r bwrdd iechyd a Llywodraeth Cymru i gefnogi'r Cyngor dros y misoedd nesaf?

Ateb- Y Cynghorydd Elsmore

Roedd y bwrdd iechyd yn cael trafodaethau sylweddol fel y dywedais yn bennaf i sicrhau ein bod yn uno o ran recriwtio hyfforddiant ac adeiladu'r gweithlu hwnnw gyda'n gilydd. Mae gennym ein Hacademi Gofalwyr Caerdydd ein hunain erbyn hyn sy'n rhan o Academi Caerdydd y byddwch yn gwybod amdani ac rydym yn cefnogi dros chwe mis hyd at 120 o bobl i ailhyfforddi ym maes gofal cymdeithasol ac o ran cael mentoriaid ar gyfer cartrefi gofal er enghraifft a'r asiantaethau gofal ond hefyd mentoriaid ar gyfer unigolion sydd am ailhyfforddi fel gweithwyr gofal cymdeithasol rydym yn gwneud hynny a chredaf y bydd hynny'n ddull defnyddiol iawn. Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â'r Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol ac mae hi'n ymwybodol iawn o'r pwysau o fewn gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghaerdydd ac mewn mannau eraill ledled Cymru y bydd y rheini'n parhau a rhaid iddynt wneud hynny.

Cwestiwn – y Cynghorydd Hudson

Beth mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud i roi hwb i ddiddordeb yng nghanol y ddinas, i gynyddu nifer yr ymwelwyr ac adfywio'r sector manwerthu?

Ateb – Y Cynghorydd Goodway

Bydd y Cynghorydd yn ymwybodol, o ganlyniad i waith y Cyngor yng nghanol y ddinas, fod Caerdydd wedi gweld nifer yr ymwelwyr yn dychwelyd yn gyflymach na'n cystadleuwyr ledled y DU.

Mae'r Weinyddiaeth yn cydnabod pwysigrwydd busnesau manwerthu a lletygarwch yng nghanol y ddinas ac mae'n parhau i fuddsoddi mewn marchnata a hyrwyddo canol y ddinas drwy blatfform Croeso Caerdydd.

I gefnogi'r gwaith hwn, mae'r Cyngor wedi sicrhau cyllid ychwanegol i'w ategu gan Lywodraeth Cymru i ategu ei gynllun Trawsnewid Trefi. Mae'r Cyngor hefyd yn cyd-fuddsoddi gyda darparwyr trafnidiaeth, gan gynnwys Great Western Railway i hyrwyddo Caerdydd dros y ffin yn Lloegr.

Ieni, bydd canol y ddinas yn elwa o Ŵyl y Gaeaf estynedig, a fydd yn gosod Caerdydd fel un o brif gyrchfannau'r DU y Nadolig hwn. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn gweithio i gefnogi Caerdydd AM BYTH i sefydlu atyniadau ychwanegol yng nghanol y ddinas y Nadolig hwn.

Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda pherchnogion Canolfan Dewi Sant i ddatblygu eu cynlluniau i wella cyfraniad y ganolfan i economi canol y ddinas ac i ymateb i'r heriau sy'n deillio o'r pandemig yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor hefyd yn parhau i weithio gyda busnesau'r ddinas i'w helpu drwy'r argyfwng recriwtio cenedlaethol y bydd y Cynghorydd yn ymwybodol ei fod yn cael effaith sylweddol ar lawer o'r sector lletygarwch.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Hudson

A fyddech yn ystyried parcio am ddim neu'n rhatach ac ardrethi busnes is ar gyfer Canol y Ddinas er mwyn hwyluso adferiad cyflymach?

Ateb – Y Cynghorydd Goodway

Byddwn i'n bersonol ond nid yw'r Cyngor yn gyfrifol am ardrethi annomestig sy'n gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru. Nid wyf yn siŵr bod gennym yr adnoddau i sybsideiddio trafnidiaeth gyhoeddus ond gwn mai rhan o'n strategaeth drafnidiaeth i gynyddu'r defnydd o fysus yn y dyfodol yr ydym yn edrych ar gost trafnidiaeth gyhoeddus ac a allwn sicrhau gostyngiad mewn prisiau tocynnau felly rydym yn effro i'r pwyntiau y mae'r Cynghorydd yn gwneud a byddwn yn ymdrechu i archwilio'r hyn y gallwn ei wneud yn y meysydd hynny ond nid wyf mewn sefyllfa heddiw i ymrwymo y byddwn yn gallu gwarantu canlyniad ond maent yn bwyntiau pwysig ac maent yn cyd-fynd â'r hyn yr ydym am ei gyflawni fel gweinyddiaeth.

Cwestiwn - y Cynghorydd Naughton

A allai'r cyngor ailystyried ei bolisi o beidio ag amnewid biniau sbwriel ar ôl iddynt gael eu llosgi gan fod Pentwyn bellach wedi colli nifer o finiau sbwriel y gellid gosod biniau metel yn eu lle?

Ateb – Y Cynghorydd Michael

Nid oes gennym bolisi o'r fath.

Ein polisi presennol yw cael gwared ar y bin sydd wedi'i ddifrodi a chanfod a oes lleoliad gwell ar gyfer y bin yn y cyffiniau sy'n fwy gweledol er mwyn helpu i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol o'r fath.

Mae pob bin wedi'i gynllunio i fod yn arafydd tân yn erbyn eitemau gwastraff fel sigaréts, ond ni fyddant yn gwrthsefyll tân o ymddygiad gwrthgymdeithasol penderfynol, hyd yn oed os oedd y bin wedi'i wneud o fetel.

<u>Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Naughton</u>

Cefais ymholiad gan aelodau yn dweud mai polisi'r Cyngor oedd peidio â disodli biniau oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol ac felly rwy'n falch eich bod wedi dweud nad oes polisi ar gyfer hynny gan fod rhai o'r biniau hyn ar brif ffordd a rhan ger prif ffordd. A fyddai'r Aelod Cabinet yn anfon gwybodaeth ataf am leoli'r biniau hyn yn ddelfrydol gyda biniau metel ond byddai unrhyw finiau yn help mawr gydag unrhyw finiau.

<u>Ateb – Y Cynghorydd Michael</u>
Yn anffodus, mae saith bin wedi'u gosod ar dân ym Mhentwyn. Mae hyn yn cynnwys un lleoliad lle mae bin wedi'i osod ar dân dair gwaith.

Mae un o'r biniau hyn wedi'i newid yn llwyddiannus; fodd bynnag, mae'r biniau hyn wedi'u lleoli ar y briffordd ac yn cael eu gweld.

O ganlyniad, mae'r Gwasanaethau Glanhau yn ei chael yn anodd iawn nodi lleoliadau addas lle na fydd ymddygiad gwrthgymdeithasol o'r fath yn parhau i ddigwydd.

Byddwn yn croesawu unrhyw awgrymiadau ar gyfer lleoliadau eraill ar gyfer y biniau hyn gan aelodau'r ward.

<u>Cwestiwn – Y Cynghorydd Gordon</u>

Rwy’n croesawu'n fawr gyhoeddi'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Strategaeth Caerdydd Un Blaned y mis hwn, a'r ffaith bod prosiectau eisoes ar y gweill a fydd yn lleihau allyriadau'r Cyngor o wresogi a phweru ein hadeiladau 60%. A allwch roi cyngor pryd y disgwyliwch i'r prosiectau mawr hyn – megis y Cynllun Gwresogi Ardal – ddechrau cael eu gweithredu?

<u>Ateb – Y Cynghorydd Michael</u>

Ar hyn o bryd rydym yn gweithredu llu o brosiectau sy'n ymateb i'r hinsawdd yn y ddinas fel rhan o Strategaeth Caerdydd Un Blaned.

Mae'r rhain yn cynnwys Fferm Solar Ffordd Lamby, sydd eisoes yn cyflenwi ynni glân i'r grid lleol ac a fydd yn cael ei chysylltu'n uniongyrchol cyn bo hir â'r Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff lleol, gan ddatgarboneiddio gweithgareddau yno.

Bydd y gwaith adeiladu yn dechrau ar Rwydwaith Gwres Caerdydd ym mis Ionawr y flwyddyn nesaf a bydd hyn yn helpu adeiladau cysylltiedig i leihau eu hallyriadau carbon ag 80%. Bydd Cam 1 y cynllun yn cymryd tua thair blynedd i'w gwblhau.

Bydd y Cabinet hefyd yn ystyried strategaeth ym mis Tachwedd ar gyfer datgarboneiddio pellach yn ystâd y Cyngor a bydd hyn yn targedu gostyngiad o 60% mewn allyriadau yn ystod y degawd nesaf.

Bydd yr holl waith hwn yn sail i lawer mwy i ddod wrth i ni weithredu ein Strategaeth Un Blaned a'r rhaglen ddegawd o gamau gweithredu tymor hwy, y mae pob un ohonynt wedi'u nodi yn y cynllun gweithredu.

Cwestiwn – Y Cynghorydd Driscoll

O ganlyniad i gynigion i ailddatblygu safle'r BBC, bydd Llandaf yn colli nifer sylweddol o goed. Yn arbennig sawl coeden flodeuog. Yn ogystal â mynd i'r afael â llygredd aer, maent wedi darparu amwynder gweledol enfawr er budd trigolion. Pa fesurau lliniaru sydd ar waith i wrthbwyso'r golled hon yn Llandaf?

Ateb – Y Cynghorydd Keith Jones

Cymeradwyodd Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor ganiatâd cynllunio amlinellol ar gyfer defnydd preswyl o hen safle'r BBC ym mis Gorffennaf 2015, yn amodol ar lofnodi cytundeb Adran 106.

Rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol wedi hynny ym mis Tachwedd 2015. Mae rhagor o wybodaeth am y cais cynllunio a chaniatâd amlinellol ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor.

Cyn i'r penderfyniad hwn gael ei wneud, aseswyd cynigion ar gyfer cadw a symud coed, ynghyd â mesurau i sicrhau plannu iawndal priodol.

Rhoddodd yr Asesiad Coedyddiaeth a oedd yn cyd-fynd â'r cais cynllunio amlinellol Categori 'C' i'r coed ceirios neu'r coed 'blodeuog' dan sylw sy'n wynebu Heol Llantrisant, sef coed o ansawdd isel sydd â disgwyliad oes o dan 10 mlynedd.

Roedd y cyngor a ddarparwyd gan Swyddog Coed y Gwasanaeth Cynllunio yn cytuno â'r asesiad hwn ac felly daethpwyd i'r casgliad na ddylai'r coed fod yn rhwystr i'r datblygiad arfaethedig.

Mae cynigion tirlunio manwl ar gyfer y safle yn cynnwys plannu coed digolledu ar y blaen hwn i Heol Llantrisant, sy'n cynnwys cyfuniad o dderw a chelyn brodorol.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Driscoll

-

Diolch am yr ateb cynhwysfawr yr ydych chi a minnau'n gwybod mecaneg y broses gynllunio ond yn anffodus mae rhai trigolion wedi cysylltu â mi sy'n dyst i'r coed sy'n dod i lawr yn anffodus, felly rwy'n ymwybodol, fel symbol cryf o'n cyfeillgarwch rhwng y ddwy wlad, rhoddodd pobl dda Japan 100 o goed ceirios Sakura i Gymru yr ydym yn ddiolchgar iawn amdanynt ac rwy'n ymwybodol y gallai hyn fod yn gwestiwn i'r Cynghorydd Bradbury ond a yw'n bosibl y gallem ddisgwyl gweld rhai o'r coed blodeuog hyn yn cael eu plannu yn Llandaf a fyddai'n gwneud llawer i liniaru ein colledion. Rydym yn gwybod eich bod chi a Peter yn hoff iawn o seremonïau plannu coed Brenhinol a byddem yn hapus i ddarparu rhaw newydd sbon a'r croeso cynhesaf yn Llandaf pe bai hyn i ddigwydd.

Ateb – Y Cynghorydd Keith Jones

Byddwch yn ymwybodol bod y Cyngor wedi ymrwymo'n llwyr i gynyddu'r canopi coed ar draws y ddinas drwy brosiect Coed Caerdydd sy'n anelu at gynyddu canopïau coed yn y ddinas o 18.9% i 25% ac mae ymgynghoriad cychwynnol ag aelodau wedi'i gynnal a ddaeth i ben fis diwethaf ac mae'r ymgynghoriad ag aelodau o'r cyhoedd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ac a fydd yn dod i ben ar 29 Hydref Rwy'n siŵr eich bod yn gwneud eich etholwyr yn ymwybodol o hynny a bod y cyhoedd yn ymwybodol o hynny. disgwylir i gyfres o ymgynghori rhithwir â holl Aelodau'r Ward gael ei chynnal ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr ac yn awr byddwch yn ymgysylltu'n weithredol â hynny.

Cwestiwn - y Cynghorydd Lister

A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am weithredu'r Strategaeth Troseddwyr Ifanc ac, yn dilyn eu hadroddiad y llynedd, beth yw asesiad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid o'n cynnydd?

Ateb- Y Cynghorydd Hinchey

Ar ôl cyhoeddi adroddiad arolygu gorffennaf 2020, daeth HMIP i Gaerdydd eto ym mis Rhagfyr 2020 a nododd gynnydd sylweddol yn erbyn camau arolygu.

Derbyniodd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd lythyr ffurfiol yn gynharach y mis hwn gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid cenedlaethol yn nodi'r gwelliannau mewn llywodraethu ac arweinyddiaeth a 'chynnydd da yn erbyn argymhellion allweddol yr arolygiad diwethaf'.

Felly, mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi israddio'r gwaith o fonitro Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd o Radd 3, sef y risg uchaf, i Radd 1. Mae hyn yn galonogol wrth i'r bartneriaeth a'r gwasanaeth baratoi ar gyfer yr arolygiad nesaf o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid.

Y strategaeth ddwy flynedd "Ein Dyfodol Ni i Gyd" a lansiwyd gan yr Arweinydd ym mis Mehefin 2020 oedd y cam cyntaf tuag at adferiad.

Bydd y strategaeth ddwy flynedd nesaf yn cael ei datblygu rhwng mis Ionawr a mis Mawrth y flwyddyn nesaf fel proses gydweithredol fel ein bod yn parhau i wella

gwasanaethau er mwyn rhoi gwell canlyniadau i'r plant hynny yn y system cyfiawnder ieuenctid a dioddefwyr y niwed a achosir ganddynt.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Lister

-
Os yw'n bosibl, a allech rannu'r ohebiaeth ddiweddar gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid gyda'r holl aelodau ac ymuno â mi i longyfarch yr holl staff yr oeddwn yn arfer gweithio gyda hwy yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ar y cynnydd gwych y maent yn ei wneud.

Ateb- Y Cynghorydd Hinchey

-
Rwy’n derbyn yn llwyr fod gennych ddiddordeb brwd yn y pwnc penodol hwn a'ch bod yn gefnogol iawn. Anfonwyd y llythyr at Graham Rob, cadeirydd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a'r rheolwr gweithredol yn uniongyrchol o'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ond byddaf yn holi'r Cadeirydd, rwy’n weddol sicr, o ystyried y cynnydd sy'n cael ei wneud y bydd yr awdur a derbynnydd y llythyr yn hapus i mi fel Aelod Cabinet ei rannu a chredaf y bydd hynny'n galonogol, fel y dywedwch yn gywir, i bob Aelod bod cynnydd da yn cael ei wneud

Cwestiwn - y Cynghorydd Robson

Ers yr ymgynghoriad diweddar gan Lywodraeth Cymru i roi tollau ar yr M4 a'r A470, pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda Gweinidogion Cymru i egluro'r effaith ar Gaerdydd?

Ateb – Y Cynghorydd Wild

-
Rwy’n ymwybodol o'r gwahanol ymgynghoriadau i edrych ar ffyrdd o fynd i'r afael â materion difrifol sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio, llygredd aer, lefelau tagfeydd, byddwch wedi nodi gwaith comisiwn Burns ac adroddiad y llywodraeth ar godi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd o ran lleoliad penodol sy'n cyfeirio at faterion ansawdd aer yno, byddwch yn ymwybodol bod angen ystyried ystod eang o opsiynau yn gynnar yn y broses fel rhan o'r broses camau gan mai trosolwg amlinellol yn unig yw hwn o'r opsiynau niferus. Ni fyddwn yn disgwyl cael trafodaethau ar hyn o bryd, fodd bynnag, wrth i'r gwaith ddatblygu ac wrth i'r opsiynau ddatblygu ac wrth i'r opsiynau fod yn gliriach byddem yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyngor i sicrhau bod unrhyw effeithiau posibl ar Gaerdydd yn cael eu hystyried yn briodol.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Robson

-
Pe bai'r tollau hynny'n mynd rhagddynt yn y lleoliad a amlinellwyd ar hyn o bryd, oni chytunwch y byddai'n dreth ar fodurwyr sy'n gyrru i Gaerdydd ac er ei bod yn bwysig mynd i'r afael â mater y newid yn yr hinsawdd, gallai'r fenter benodol hon niweidio'r economi'n llawer mwy na mesurau eraill a fyddai o fudd i'r amgylchedd ac a wnewch gyfleu hynny i lywodraeth Cymru ar yr adeg briodol.

Ateb – Y Cynghorydd Wild

-

Na, rwy'n mynd i herio hyn yn llwyr Gynghorydd Robson. Hynny yw, rydym yn clywed yn y Siambr hon eich bod wedi cyflwyno nifer o gynigion ynghylch ansawdd aer yr ydych yn sefyll ar eu traed ac yn dweud y dylem fod yn delio â hyn yn y materion pwysicaf yr ydych yn sôn yn benodol amdanynt mewn ardaloedd o amgylch yr Eglwys Newydd yn cwyno am faterion ansawdd aer o amgylch yr ysgol. Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno rhai cynigion i ddelio â mater ansawdd aer o ddifrif y gwyddom ei fod yn lladd pobl lle y disgwylir iddynt gyflwyno nifer o wahanol ffyrdd o ddelio ag ef fel rhan o broses ac yna rydych yn codi bwganod ar unwaith a gwyddoch ei bod yn codi'r cwestiwn pa mor ddifrifol ydych chi a'ch grŵp, Gynghorydd Robson, ynghylch delio â materion sy'n ymwneud â'r hinsawdd ac ansawdd aer pan fyddwch, cyn gynted â daw rhywbeth mor fach â hyn, yn codi bwganod gyda'r math o iaith rydych chi'n ei defnyddio felly dydw i ddim yn cytuno â'ch asesiad o'r sefyllfa ac rwy'n falch bod gennym Lywodraeth Cymru sy'n barod i wneud penderfyniadau anodd wrth ddelio â rhai o faterion mwyaf ein hoes.

<u>Cwestiwn - y Cynghorydd McGarry</u>

A allwch ddweud wrth y Cyngor pa rôl y mae tai wedi'i chwarae yn y Strategaeth Un Blaned?

<u>Ateb – Y Cynghorydd Thorne</u>

Mae'r Gwasanaeth Tai a Chymunedau wedi chwarae rhan allweddol yn natblygiad y Strategaeth Un Blaned.

Datblygwyd rhaglen uchelgeisiol i drawsnewid effeithlonrwydd ynni ein cartrefi cyngor presennol ac i ymgorffori technoleg arloesol ym mhob un o'n prosiectau adeiladu newydd.

Rydym yn cynnig gwneud gwelliannau ar raddfa eang i'n blociau o fflatiau sy'n codi'n isel. Bydd y rhaglen 10 mlynedd hon yn sicrhau bod gan ein holl flociau isel o fflatiau insiwleiddiad thermol allanol a phaneli ffotofoltäig solar i gynhyrchu ynni fforddiadwy glân.

Rydym hefyd wedi datblygu strategaeth 'Symud i Sero Net', sy'n sicrhau bod ein rhaglen adeiladu newydd gyfan yn symud yn gyflym tuag at safon ddi-garbon.

Rydym yn dylunio ein cartrefi newydd i leihau carbon drwy adeiladwaith adeiladu hynod effeithlon, gan integreiddio storfeydd ffotofoltäig solar a batris a defnyddio ffynonellau gwres adnewyddadwy ar y safle fel ffynhonnell ddaear neu ffynhonnell aer. Mae pob cartref hefyd yn cael ei ddiogelu ar gyfer gwefru cerbydau trydan yn y dyfodol.

Bydd y dull uchelgeisiol hwn yn lleihau biliau tanwydd tenantiaid ac allyriadau carbon o gartrefi cyngor yn sylweddol.

<u>Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd McGarry</u>

Yr oeddwn yn meddwl tybed beth y gall y Cyngor ei wneud i annog y sector rhent preifat a pherchnogion tai i fodloni'r safonau hyn?

Ateb – Y Cynghorydd Thorne

Rwy'n credu y gallwn wneud rhywbeth ond ni allwn wneud y gwaith hwn ar ein pen ein hunain. Rydym yn gweld rôl ganolog i ni o ran datblygu strategaeth partneriaeth gydgysylltiedig i hyrwyddo ôl-ffitio effeithlonrwydd ynni tai sy'n gwella ar draws pob deiliadaeth o dai sy'n targedu hyd at 2000 o gartrefi y flwyddyn erbyn 2024 ac yn benodol bydd hyn yn ceisio nodi ffynonellau ariannu posibl, lobïo am fwy os oes angen a darparu cyngor synhwyrol a defnyddiol i berchnogion tai fel y gallant wneud penderfyniadau gwybodus am effeithlonrwydd ynni.

86 : MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

87 : AELODAETH PWYLLGORAU

I dderbyn enwebiadau a gwneud penodiadau i swyddi gwag pwyllgorau cyfredol fel y nodir yn yr adroddiad ac yn unol â'r dyraniad cymeradwy o seddi a dymuniadau grwpiau gwleidyddol.

PENDERFYNWYD: Argymell i'r Cyngor benodi i'r swyddi gwag ar y Pwyllgorau yn unol â'r dyraniad cymeradwy o seddi a dymuniadau grwpiau'r Pleidiau fel y nodir ar y Daflen Ddiwygiadau.

88 : CWESTIYNAU YSGRIFENEDIG

Yn unol â Rheol 17 (f) Gweithdrefn y Cyngor, caiff y Cwestiynau Ysgrifenedig a dderbyniwyd eu cynnwys yn gofnod o'r cyfarfod